

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
E bost: clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com Ffôn: 07974795778

5ed Chwefror 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD NESAF CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT *Nos Lun y 12fed o Chwefror am 7.00pm yn y Ganolfan, Abergynolwyn.*

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Croeso ichwi gysylltu os ydych eisiau gair
Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 8fed o Ionawr – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd /llwybrau.
 - b) Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae ar gyfer 2024. (*ystyried dau tendr i law*)
 - c) Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth – ystyried y diweddaraf, ac ymateb ynglyn a tafenni yn saesneg.
 - d) Coeden yn difrodi wal – ystyried y diweddaraf.
 - f) Hyfforddiant Cynghorwyr – a rhoi cynllun ar y wefan

5. Materion Cynllunio

Dau gais am ganiatad hysbysebion i osod paneli gwybodaeth ar daith Mari Jones (*wedi ei danfon l'r Cynghorwyr eisoes*) - *sef*

NP5/67/AD206A – Tir ger Pont Ty'n y Fach, Llanfihangel y Pennant

NP5/67/AD5J – Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol, Dol Idris, Talylyn.

6.Materion Cyllid.

Ceisiadau am arian;

- Dawns i bawb (elusen gofrestredig)
- Urdd Gobaith Cymru

7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

8..Adroddiad Elwyn Evans , Cynrychiolydd Un Llais Cymru.

9. Gohebiaeth.

- Materion mynent Eglwys Llanfihangel y Pennant

10. Unrhyw fater arall